










CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN/A42 - GLOÏNNOD BYW


Gweler gwefan [Gwarchod Glöynnod Byw](#) i gael gwybodaeth fwy manwl am y rhywogaethau. Cafwyd caniatâd i ddefnyddio'r lluniau.

YR AMCANION CYFFREDINOL

- Clustnodi safleoedd newydd ar gyfer cynnal arolygon yn y sir.
- Hybu diddordeb gwirfoddolwyr mewn glöynnod byw.
- Defnyddio rhywogaethau allweddol yn ganolbwynt ar gyfer ymwneud â'r cyhoedd/ysgolion.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau hynny a'r materion sy'n effeithio arnynt.

Y RHYWOGAETH	LLUN	Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN	Y MATERION/CAMAU GWEITHREDU
<p><i>Boloria selene</i> Britheg Berlog Fach</p> <p>© Jim Asher - Gwarchod Glöynnod Byw</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Glaswelltiroedd a gweundiroedd yr iseldir / coetiroedd agored 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lleihad mawr wedi bod o ran niferoedd y rhywogaeth hon yn y sir gan fod glaswelltiroedd llaith sy'n gyforiog o flodau wedi eu colli yn sgil amaethu dwys. • I raddau llai, mae rhoi'r gorau i reoli coetiroedd (a arferai roi bod i lennyrch heulog a blodeuog) wedi effeithio er gwaeth ar y rhywogaeth. • Mae gwarchod y glaswelltiroedd cyfoethog sy'n weddill yn flaenoriaeth ar gyfer y rhywogaeth hon a bywyd gwylt cysylltiedig.
<p><i>Coenonympha pamphilus</i> Gweirlöyn Bach y Waun</p> <p>© Maggie James</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Glaswelltiroedd yr ucheldir / gweundiroedd / yr arfordir 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n dal i fod yn gymharol gyffredin ledled y sir, ond bu colledion lleol yn ddiameduaeth yn sgil amaethu dwys.
<p><i>Cupido minimus</i> Glesyn Bach</p> <p>© George Tordorff</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir / tiroedd llwyd (ac, yn anaml bellach, glaswelltiroedd yr iseldir). • Mae poblogaethau cryf yn y prif systemau twyni ym Mhen-bre ac yn Lacharn/Pentywyn, yn ogystal â niferoedd llai yn y systemau twyni llai megis Gwarchodfa Natur Leol Twyni Doc y Gogledd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gwaith rheoli sy'n cael ei wneud yn awr - megis cael gwared â rhafnwydd y môr ac ailgyflwyno pori - yn creu glaswelltiroedd twyni agored sy'n gyforiog o flodau, a bydd hyn oll o fudd i'r rhywogaeth hon. • Prin y gwelir y rhywogaeth hon ar safleoedd tir llwyd / glaswelltiroedd.
<p><i>Erynnis tages</i> Gwibiwr Llwyd</p> <p>© George Tordorff</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir / tiroedd llwyd / glaswelltiroedd yr iseldir • Y prif ardaloedd yw'r glaswelltiroedd twyni ym Mhen-bre a Lacharn/Pentywyn, ond mae poblogaethau mewn ardaloedd eraill yn enwedig ar tiroedd llwyd sy'n gyforiog o flodau, megis yr hen waith glo brig yn Ffos-las ger Trimsaran. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fel sy'n wir am rywogaethau eraill sy'n dibynnu ar gynefinoedd agored o'r fath, mae'n bosibl fod angen ymatal rhag plannu coed mewn modd amhriodol, a rheoli'r dilyniant naturiol.
<p><i>Eurodryas aurinia</i> Britheg y Gors</p> <p>© Richard Pryce</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Glaswelltiroedd a gweundiroedd yr iseldir. Yng Nghymru, glaswelltiroedd niwtral/asidig llaith yw cynefin y glöyn gan amlaf, a thamaid y cythraul yw planhigyn cynhaliol y larfa. • De-orllewin Cymru yw un o'r cadarnleoedd bellach. Mae'r mwyafrif o'r clystyrau sydd yn Sir Gaerfyrddin yn ne-ddwyrain y sir at ei gilydd, gyda chlystyrau gwasgaredig mewn mannau 	<ul style="list-style-type: none"> • Y prif ffactor o ran y lleihad yn y niferoedd yw lefelau amhriodol o bori; yn benodol, diffyg pori sydd wedi rhoi cyfle i'r porfeydd ordyfu ac i brysgwydd ymledu yn sgil hynny. Ffactor arall yw colli cynefinoedd a thiroedd cysylltiol yn sgil datblygu safleoedd. • Mae prosiect ar raddfa tirwedd wedi ei sefydlu i ddiogelu a rheoli glaswelltiroedd corsio sy'n gynefin i frithegion y gors yn ardal Cross Hands; ac mae swyddog prosiect wedi'i gyflogi; • Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer

Y RHYWOGAETH	LLUN	Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN	Y MATERION/CAMAU GWEITHREDU
		eraill. Nid ydym yn gwybod maint llawer o'r clystyrau, ac er bod llawer yn fach efallai, gyda'i gilydd maent yn gyfraniad arwyddocaol i'r boblogaeth genedlaethol.	brithegion y gors ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.
<i>Hipparchia semele</i> Gweirlöyn Llwyd © P. Gadsby		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir / safleoedd tir llwyd / glaswelltiroedd a gweundiroedd yr iseldir • Gan fod yn well gan y rhywogaeth hon laswelltiroedd mwy cras lle mae daear noeth agored, mae'r prif boblogaethau yn y prif systemau twyni (ynghyd â'r systemau llai) ar hyd yr arfordir. Yn ogystal mae'r rhywogaeth yn byw ar safleoedd tir llwyd sy'n dal i fod yn dir agored (ac felly'n debyg o ran eu nodweddion i'r cynefin uchod), a hefyd o amgylch llecynnau creigiog ar weundiroedd / ucheldiroedd megis rhannau o'r Mynydd Du a Mynydd Llangyndeyrn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r poblogaethau yng nghefn gwlad wedi lleihau yn ystod yr hafau diwethaf (efallai oherwydd ein bod wedi cael nifer o hafau gwlyb?).
<i>Lasiommata megera</i> Gweirlöyn y Cloddiau © Maggie James		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir / safleoedd tir llwyd 	<ul style="list-style-type: none"> • Dyma rywogaeth arall sy'n ffafrio llecynnau eithaf agored a heulog, megis gweundiroedd creigiog, safleoedd tir llwyd, a chloddiau ac ati sy'n wynebu'r de neu'r de-orllewin ac sy'n gyforiog o flodau. • Mae'r niferoedd wedi lleihau yn ystod y degawd diwethaf.
<i>Pyrgus malvae</i> Gwibiwr Brith © George Tordorff		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir / glaswelltiroedd a gweundiroedd yr iseldir • Mae'r rhywogaeth hon wedi ei chyfyngu bron yn llwyr i laswelltiroedd sefydlog ar y systemau twyni ar yr arfordir, lle mae'r lindys yn dibynnu ar fefus gwyllt. O bryd i'w gilydd deuir o hyd i boblogaethau bychain yng nghefn gwlad, ar safleoedd tir llwyd neu yn y mannau hynny sydd â digon o blanhigion addas megis cwarrau agored lle mae calchfaen carbonifferaidd yn brigo i'r wyneb. • Mae'n rhywogaeth brin iawn yng Nghymru; ac mae poblogaethau Sir Gaerfyrddin yn rhan sylweddol o'r boblogaeth genedlaethol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fel sy'n berthnasol yn achos llawer o löynnod byw, mae atal prysgwydd neu goetir rhag ymfurfio yn elfen allweddol o ran rheoli cynefinoedd.
<i>Satyrrium w-album</i> Brithribin W Wen © Jim Asher - Gwarchod Glöynnod Byw		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd / tiroedd amaeth / parcdiroedd. Mae'r brithribin W wen yn rhywogaeth leol yn Sir Gaerfyrddin, gan adlewyrchu dosbarthiad llwyfenni yn y sir. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaeth yn byw ar yr arfordir ac yn Nyffryn Tywi yn bennaf, ond oni bai y chwilir yn unswydd am y glöyn hwn prin y'i gwelir gan ei fod yn byw ym mrig coed. Yn ôl pob tebyg mae tangofnodi difrifol wedi bod yn achos y rhywogaeth hon, ac mae'n debygol bod y glöynnod hyn yn byw ledled y sir yn y coetiroedd a'r perthi hynny sy'n gyforiog o lwyfenni. • Nid oes angen trefniadau rheoli penodol ar y rhywogaeth, a llwyddodd i oroesi Clefyd Llwyfen yr Isalmaen yn y 1970au (ac mae llwyfenni lleol wedi ailgryfhau'n dda ers hynny).

Y RHYWOGAETH	LLUN	Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN	Y MATERION/CAMAU GWEITHREDU
<p><i>Thecla betulae</i> Brithribin Brown</p> <p>© Richard Smith</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Yn Sir Gaerfyrddin y mae rhyw 60% o'r safleoedd a gofnodwyd yng Nghymru yn ddiweddar (ers 1995). Mae'r dosbarthiad hysbys yn ymestyn yn fras i'r gogledd o'r A40; mae dyrnaid o safleoedd ychydig i'r de o'r llinell honno, a hynny'n bennaf yn Nyffryn Tywi. • Yn nyffrynnoedd Tywi a Theifi a'u hisafonydd y mae'r poblogaethau y gwyddys amdanynt orau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Tybir taw'r prif ffactor sy'n effeithio ar y rhywogaeth yw ffustio perthi'n fecanyddol yn flynyddol a thocio blaen dyfiant a chrachgoed y tu mewn i derfynau caeau, ynghyd â newidiadau o ran rheoli coetiroedd, gan gynnwys colli cynefinoedd ar gyrion coetiroedd. • Mae gwirfoddolwyr Gwarchod Glöynnod Byw wedi bod yn cynnal arolygon blynyddol o wyau'r rhywogaeth hon ers mwy na 10 mlynedd, ac maent yn cydweithio â pherchenogion tir er mwyn rheoli safleoedd ar gyfer y glöynnod hyn. • Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer brithribinau brown ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.